# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Beverley Hopkins | **Adran Etholiadol:** | Glandŵr |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhelir 4 cymhorthfa yn y ward bob mis.
Roeddwn i'n arfer mynd i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn rheolaidd, ac roeddent yn cwrdd bob deufis yn y ward.
Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â fy nghydweithiwr yn y ward ac yn mynd o gwmpas y ward i geisio ymdrin ag unrhyw broblemau ynghylch taflu sbwriel yn anghyfreithlon a pharcio.
Rwyf wedi helpu i sefydlu Cyfeillion Parc Plas-marl ac rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r 4 canolfan gymunedol yn ein hardal.
Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gydag etholwyr i wrando ar eu barn am gyfyngiadau parcio rydym yn eu rhoi ar waith.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Plasmarl ac Ysgol Gynradd yr Hafod.
Canolfan Gymunedol yr Hafod.
Cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) lleol.
Cyfeillion Parc Plas-marl.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi gweithio gydag Ysgol Gynradd yr Hafod, Ysgol Gynradd Plas-marl a'r Is-adran Priffyrdd i sicrhau bod disgyblion yn gallu cyrraedd eu hysgolion a'u gadael yn ddiogel.
Rydym wedi gweithredu llawer o Orchmynion Traffig Ffordd yn y ward i helpu etholwyr gyda phroblemau parcio.
Rwyf wedi gweithio gyda'r Is-adran Gorfodi i geisio lliniaru'r materion cynyddol sydd gennym gyda thaflu sbwriel yn anghyfreithlon.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Gall etholwyr gysylltu â fi drwy ffonio neu e-bostio unrhyw bryd ac nid oes rhaid iddynt aros am un o'm cymorthfeydd. Rwyf ar gael bob amser ac rwy'n ystyried anghenion fy etholwyr wrth gyflawni fy nyletswyddau fel cynghorydd.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Basic Salary - Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28/10/2018 |